

Cofnodion y cyfarfod o Fwrdd Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2020 yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Yn Bresennol: Lawrence Conway (Cadeirydd), Pippa Britton (Is Gadeirydd), Ian Bancroft, Rajma Begum, Dafydd Trystan Davies, Delyth Evans, Nicola Mead-Batten, Hannah Murphy, Leigh Robinson, Judi Rhys, Phil Tilley, Alison Thorne, Martin Veale.

Y Staff Yn Bresennol: Brian Davies (PW Dros Dro), Paul Randle (PR), Graham Williams (GW), Liam Hull (LH), Jane Foulkes (Eitemau 1-5.1), Owen Burgess (Eitem 1-5.7), Amanda Thompson (cofnodion)

Arsylwyr: Paul Kindred (Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru) (PK), Eleri McLennan (Llysgennad Ifanc) (EM)

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ashok Ahir a Dr Nicola Guy, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru, sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y Polisi Chwaraeon. Roedd PK yn bresennol yn ei habsenoldeb.

Gofynnodd y Cadeirydd i Lywodraeth Cymru roi sylw penodol i bapurau SW(20)04 Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol (CSAP) a SW(20)05 Adolygiad o Gyfleusterau'r Canolfannau Cenedlaethol. Roedd materion pwysig i Lywodraeth Cymru fod yn gwbl ymwybodol ohonynt yn y papurau hynny.

2. Datgan budd

Ian Bancroft a Leigh Robinson ar gyfer papur SW(20)04.

3. Cofnodion, Cofnod Gweithredu, Traciwr Penderfyniadau a Materion yn Codi

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 28 Tachwedd 2019 fel cofnod manwl gywir. Nodwyd y cofnod gweithredu a'r traciwr penderfyniadau. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Cyf 5.6: Argyfwng Newid Hinsawdd. Roedd y diweddariad a roddwyd ym mhapur SW(20)12 yn y cyfarfod hwn er gwybodaeth yn unig a byddai'n cael ei gyflwyno ger bron y Bwrdd eto yn ei gyfarfod fis Mai.

4. Adroddiad y Cadeirydd a'r Weithrediaeth

Cyflwynodd y PW yr adroddiad hwn a thynnu sylw at y canlynol:

- **Lle i Chwaraeon:** Roedd buddsoddiad cyfalaf cychwynnol Llywodraeth Cymru o £5m ar y targed i gael ei wario fel y cytunwyd erbyn 31 Mawrth 2020. Roedd Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £3m ar gael, i'w wario erbyn Mawrth 2021. Cytunodd y Bwrdd y byddai dull gweithredu tebyg i'r gronfa hon yn cael ei roi ar waith eto gyda dim ond mân newidiadau efallai i'r meini prawf gwreiddiol. Ni fyddai unrhyw gyllid awtomatig i unrhyw geisiadau blaenorol ond efallai y byddai rhai prosiectau'n gymwys i ymgeisio eto. Gall rhai prosiectau ym Mhlas Menai fod yn gymwys, mewn egwyddor, fel y tro diwethaf. Byddai crynodeb o'r prosiectau a gyllidwyd yn 2018-2020 ar gael i'r Bwrdd.
- **Eiriolaeth:** Trefnwyd sesiwn ar y maes gwaith hwn ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.

- **Cymdeithas Chwaraeon Cymru:** Cynigiwyd bod rhai cynrychiolwyr Bwrdd yn cyfarfod gyda Bwrdd Cymdeithas Chwaraeon Cymru (WSA). Byddai'r Cadeirydd/PW yn bwrw ymlaen â hyn gyda'r rhai a fyddai'n cyflwyno eu hunain.
- **Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru (WPAP):** Digwyddiad Rhanddeiliaid Cenedlaethol ym mis Ebrill/Mai. Digwyddiad gwahoddiad llai yn y flwyddyn gyntaf. Cyllid ar y cyd ac yn cyd-fynd â strategaeth HWHW.
- **Partneriaeth â Chymdeithas Olympaidd Prydain:** Byddai'r PW yn gwahodd y Gweinidog i ymweld â hwb dadansoddi perfformiad COP sy'n cael ei leoli yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yn ystod Gemau Olympaidd Tokyo. Gallai Cymdeithas Baralympaidd Prydain drefnu rhywbeth tebyg ar gyfer y Gemau Paralympaidd pe bai'n dymuno, ond nid oes cais wedi'i dderbyn.
- **Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru:** Cyflwynwyd ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd Chwaraeon Cymru yn parhau'n obeithiol y byddai'r strategaeth yn cynnwys rôl integredig ar gyfer chwaraeon.
- **Sioe Deithiol UKAD:** I'w chynnal yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ar 11 Mawrth ar gyfer Cadeiryddion a PW CRhC. Roedd UKAD yn awyddus i fod â mwy o bresenoldeb yn y Gwledydd Cartref.
- **Gwefan:** Roedd gwefan newydd Chwaraeon Cymru yn fyw nawr. Byddai gwelliannau a datblygiadau pellach yn cael eu gwneud a chroesawyd adborth gan yr Aelodau.
- **Gwobrau Chwaraeon Cymru:** Roedd trafodaeth ar y bartneriaeth gyda'r BBC a'r digwyddiad eleni eto i gael ei chynnal. Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ffurfiol i'r Bwrdd ym mis Mai.
- **CLIP:** Byddai sut oedd yr effaith yn cael ei chofnodi ac a oedd cyrhaeddiad ehangach y tu hwnt i'r rhwydwaith craidd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Bwrdd unwaith y byddai'r rhaglen wedi cael ei gwerthuso.
- **Nofio Am Ddim:** Byddai Chwaraeon Cymru yn gwerthuso pob awdurdod lleol i weld ble oedd angen gwelliannau. Yn y cyfamser, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Chyngor Bro Morgannwg ynghylch lefel y feirniadaeth yr oedd eu cynllun diwygiedig yn ei denu.

CAMAU GWEITHREDU:

Crynodeb o brosiectau Lle i Chwaraeon 2018-2020 i fod ar gael i'r Bwrdd. Rhoi diweddariad ar Wobrau Chwaraeon Cymru yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mai. Y Cadeirydd i fwrw ymlaen â chyfarfod â bwrdd WSA. GW/y Cadeirydd i gyfarfod â Chyngor Bro Morgannwg ynghylch nofio am ddim.

Cyf. Papur: SW(20)01

5. Polisi a Chraffu

5.1 Adroddiad Ch3 y Cynllun Busnes

Cyflwynodd JF ac LH grynodedb o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y chwarter diwethaf, beth oedd wedi'i ddysgu, beth oedd ar y gorwel a throsolwg o'r sefyllfa sefydliadol bresennol. Tynnwyd sylw at y canlynol:

- Ymgysylltu â'r strategaeth fuddsoddi – maes allweddol gyda newid didwyll mewn perthnasoedd a chefnogaeth i'r strategaeth newydd. Roedd cyfarwyddyd buddsoddi newydd ar gael ar-lein nawr.
- Cwricwlwm – parhau i ddatblygu'r cynnig ymhellach ac ystyried sut orau i ddylanwadu ar y pedwar consortia yn ystod cyfnod prysur iawn iddynt.
- Strategaeth Adnoddau – Roedd yr aelodau eisoes yn ymwybodol o'r rhesymau dros ychydig o lithro gyda'r amserlen. Byddai diweddariad arall ym mis Mai. Byddai'r broses hunanasesu'n cael ei hymestyn gyda phlymio dwfn bob pedair blynedd.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen gwella'r asesiad effaith o ran craffu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a pha mor effeithiol oedd y rhaglenni'n cyrraedd y cymunedau targed. Dywedodd LH y byddai hyfforddiant staff i wella hyn yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn. Awgrymwyd y byddai CRhC yn cael eu hannog, os yw hynny'n bosib, i rannu swyddogaethau ac adnoddau rhwng y chwaraeon a'r sefydliadau.

Cyf. Papur: SW(20)02

5.2 Cynllun Busnes 2020/21

Cyflwynodd LH y cynllun drafft a chofnodi adborth yr Aelodau. Byddai trawsnewid digidol yn cael sylw eto ar ôl Ailgynllunio. Byddai cyflwyniad y meysydd gwaith allweddol yn cael ei newid i adlewyrchu blaenoriaeth a chategoreiddio'r gwaith, gan wahaniaethu yn benodol rhwng gwaith yn y cam datblygiadol neu weithredu, a gwaith lle oedd cynnydd yn cael ei fonitro. Cymeradwyodd yr Aelodau y cynllun busnes, yn amodol ar newidiadau pellach fel y trafodwyd, a byddai'r fersiwn terfynol ar gael i'r Bwrdd ym mis Ebrill.

Cyf. Papur: SW(20)03

5.3 Y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol (CSAP)

Chwaraeon Gogledd Cymru (SNW): Dywedodd GW bod SNW wedi cytuno i fodel llywodraethu gan awdurdod lleol ac mai Conwy oedd yn debygol o fabwysiadu'r rôl hon. Roedd Cynllun Cyflawni ar y cyd ar gyfer 2020/21 wedi'i dderbyn. Byddai Achos Busnes llawn yn arwain at Gynllun Cyflawni pum mlynedd ar gyfer 2021/26 yn cael ei gyflwyno i Chwaraeon Cymru ym mis Mai. Byddai'n cynnwys esbonio'r trefniadau llywodraethu ehangach a recriwtio Arweinydd Gweithredol.

Ehangu ledled Cymru: Roedd oedi wedi bod gyda cham nesaf arfaethedig yr ehangu. Yn dilyn cyhoeddi'r Bil Llywodaeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a'r esboniad o ganlyniad, roedd angen ailagor y cam Mynegi Diddordeb gyda dewislen ehangach o opsiynau gofodol. Byddai'r patrwm terfynol yn cael ei benderfynu gan Fwrdd Chwaraeon Cymru ym mis Gorffennaf, yn dilyn asesiad o gyflwyniadau lleol yn ystod y cam Datrysiadau Amlinellol.

Cyf. Papur: SW(20)04

5.4 Adolygiad o Gyfleusterau Canolfannau Cenedlaethol Chwaraeon Cymru

5.4.1 Plas Menai

Argymhellodd y grŵp Adolygu Cyfleusterau (FRG) gynnwys ymgynghorwyr i gynorthwyo gyda llunio'r opsiynau rheoli menter ar y cyd neu gontract allanol yn y dyfodol. Cynigiwyd bod yr ymgynghorwyr yn dechrau ym mis Mawrth ac yn cyflwyno rhestr fer tendr ac adborth ar yr opsiynau terfynol i'r Bwrdd ym mis Mai.

Cymeradwyodd yr Aelodau y dull amlinellol ar gyfer penodi ymgynghorwyr i lunio'r cam nesaf, ond cytunwyd y byddai'n rhaid gwybod beth yw barn Llywodraeth Cymru yn ddelfrydol cyn penodi ymgynghorwyr yn ffurfiol. Roedd angen gwaith pellach ar ddatblygu cynllun ymgysylltu ehangach a chyfathrebu cynhwysfawr. Gofynnodd y Cadeirydd i FRG roi blaenoriaeth i hyn yn ei gyfarfod nesaf ar 3 Mawrth.

Roedd angen ystyried goblygiadau'r iaith Gymraeg yn y broses asesu hefyd. Roedd y cyllid uwchraddio a chyfalaf yr oedd Plas Menai ei angen i alluogi adnewyddu eto i'w ddatgan.

5.4.2 Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Cadarnhaodd y dadansoddiad cychwynnol yr angen am ddeall yn fanylach yr opsiynau sydd ar gael i adeiladu cyfleusterau newydd yn rhywle arall neu adeiladu ar y safle presennol o gymharu ag adnewyddu. Roedd ymgynghoriaeth allanol, Alliance Leisure, wedi'i phenodi i fwrw ymlaen â'r dadansoddiad, a byddai'n adrodd yn ôl i'r FRG ar 3 Mawrth. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad ym mis Mai.

Cyf. Papur: SW(20)05

5.5 Llawlyfr a Chylch Gorchwyl Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Cyflwynodd LH y llawlyfr a'r cylch gorchwyl Llywodraethu Corfforaethol wedi'u diweddarau ar gyfer ARAC. Roedd y llawlyfr wedi cael ei ddiweddarau gyda disgwyliadau aelodaeth y cytunodd yr Aelodau i gyd iddo, y gofynion diogelu data a gwybodaeth disgwylidig gan Aelodau, a manylion am derfynu tymor gwasanaethu. Roedd y cylch gorchwyl yn adlewyrchu'r newid o ran cynyddu nifer posib yr Aelodau o bump i saith i roi mwy o hyblygrwydd i ARAC. Cymeradwyodd yr Aelodau y ddwy ddogfen.

Cyf. Papur: SW(20)06

5.6 Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyflwynodd LH yr adroddiad hwn fel bod Aelodau'r Bwrdd yn cael sicrwydd am gydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mewn perthynas â phennu amcanion cydraddoldeb. Mae Chwaraeon Cymru yn parhau â'i ymrwymiad i weithio gyda Phartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus. Byddai'r cynllun gweithredu sy'n codi o hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf. Cymeradwyodd yr Aelodau'r argymhellion.

Cyf. Papur: SW(20)07

5.7 Diweddariad Amrywiaeth y Bwrdd Partneriaid

Cafwyd diweddariad gan OB am lefelau presennol y partneriaid sy'n cyflawni'r polisi Amrywiaeth Bwrdd a pha waith sydd wedi cael ei wneud i gefnogi CRhC. Cymeradwyodd yr Aelodau'r dull tri cham o reoli unrhyw ddiffyg cynnydd sydd wedi'i ddatgan ymhlith y partneriaid. Ailadroddwyd bod cymal terfynol Cam 3 yn nodi y byddai peidio â chadw at bolisi Amrywiaeth Bwrdd yn gwneud sefydliad yn anghymwys yn y pen draw i wneud cais am gyllid Chwaraeon Cymru o 2021/22 ymlaen.

Cafwyd trafodaeth ar ddatblygu amrywiaeth yng ngweithlu Chwaraeon Cymru. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ystyried ymhellach sut gallai Aelodau'r Bwrdd gefnogi hyn. Byddai'r model buddsoddi newydd yn helpu Chwaraeon Cymru i fonitro amrywiaeth yn y sector chwaraeon yn gyffredinol.

Cyf. Papur: SW(20)08

6. Cyllid a Risg Gorfforaethol

6.1 Adroddiad Cyllid Ebr-Rhag 2019

Adroddodd PR ar sefyllfa ariannol Chwaraeon Cymru ar gyfer mis Ebrill i fis Rhagfyr 2019. Dwy gyllideb gyfalaf arwyddocaol a ychwanegwyd oedd 'Lle i Chwaraeon' (i'w gwario erbyn 31 Mawrth

2020) a'r Gronfa Iach ac Egniol. Byddai cyfalaf ychwanegol o £220k gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wario ar y gegin faeth yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru ac ar osod panelau solar ym Mhlas Menai. Roedd gwariant y Loteri ychydig dros broffil y gyllideb, o 0.8k, ac roedd disgwyl i wariant y grant fod oddi mewn i'r gyllideb flynyddol. Nododd yr Aelodau y sefyllfa.

Cyf. Papur: SW(20)09

6.2 Cyllideb 2020/21

Cyflwynodd PR drosolwg o'r setliad drafft gan Lywodraeth Cymru o £24.658m a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2020/21 gan gynnwys y Loteri. Roedd cymorth grant Llywodraeth Cymru yn cynnwys £3m i barhau â 'Lle i Chwaraeon' yn 2020/21. Er y byddai Chwaraeon Cymru yn derbyn dyraniad arian refeniw 'disymud', byddai toriad 'amser real' fel y manylir yn yr adroddiad.

Trafodwyd yr adolygiad bob tair blynedd o'r LGPS a'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr. Byddai'r gostyngiad cychwynnol ar gyfer 2020/21 yn lleihau effaith cynnydd cyfraniad pensiwn y cyflogwr, ond gan fod disgwyl i'r taliadau diffyg gynyddu dros amser, byddai cwestiwn yn cael ei ofyn i Lywodraeth Cymru ynghylch a ellid cynnig Gwarant y Goron ar gyfer atebolrwydd pensiwn Chwaraeon Cymru. Roedd Gwarant y Goron wedi cael ei roi'n flaenorol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Byddai gwarant o'r fath yn arwain at gyfraniadau cyflogwr is.

CAM GWEITHREDU:

Cymeradwyodd yr Aelodau'r gyllideb ddrafft a gofynnwyd am ddiweddariad pellach ar y sefyllfa pensiwn ym mis Mai.

Cyf. Papur: SW(20)10

6.3 Buddsoddiadau Partneriaid 2020/21

Fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Bwrdd fis Tachwedd diwethaf, roedd y model Buddsoddi'n cael ei roi ar waith fesul cam yn awr. Byddai buddsoddiadau ar gyfer 2020/21 yn cael eu capio ar uchafswm o gyllid 2019/20, gyda nifer bach o eithriadau'n seiliedig ar naill ai waith datblygu partneriaeth arfaethedig neu o ganlyniad i dderbyn cyllid ychwanegol drwy'r gyllideb Iechyd i gefnogi Cynllun Cyflawni 'Pwysau Iach Cymru Iach' (HWHW). Byddai'r CRhC cyllid uwch yn defnyddio'r datganiadau atebolrwydd newydd yn ystod 2020/21.

Roedd pryderon am nifer bach o bartneriaid oedd heb fodloni'r meini prawf hanfodol eto. Roedd Chwaraeon Cymru yn cefnogi'r partneriaid hyn i gyrraedd y safon angenrheidiol. Byddai unrhyw gyllid yn amodol ar fodloni'r meini prawf erbyn 1 Ebrill 2020.

Cymeradwyodd yr Aelodau argymhelliad y buddsoddiadau partner ar gyfer 2020/21.

Cyf. Papur: SW(20)11

7. Grŵp Llywio'r Llysgenhadon Ifanc

Rhoddodd EM ddiweddariad ar yr Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol a Grŵp Llywio Cenedlaethol y Llysgenhadon Ifanc a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr ill dau. Siaradodd am y prosiectau amrywiol oedd yn cael eu cynnal i ddatblygu rhaglen y Llysgenhadon Ifanc ymhellach ledled Cymru. Byddai penwythnos nesaf yr Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol yn cael ei gynnal yn ystod mis Chwefror. Ymhellach ymlaen, roedd digwyddiadau amrywiol i gyd-fynd â Diwrnod y Gymanwlad, yr Wythnos Gwirfoddolwyr, yr Wythnos Hyfforddwyr a'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

Awgrymwyd y byddai'r Llysgenhadon Ifanc yn hoffi cyflwyno eu gweithgareddau i Wythnos Chwaraeon Ewrop ym mis Medi 2020.

8. Agenda Caniatâd

8.1 Argyfwng Hinsawdd

Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2019, byddai'r ddwy Ganolfan Genedlaethol yn elwa o gyngor proffesiynol allanol ar gyfer dadansoddi effeithiolrwydd y mesurau presennol ac i helpu i ddatgan y camau nesaf a'r adnoddau sydd eu hangen i symud tuag at sefyllfa niwtral o ran carbon yn ystod y degawd nesaf. Hefyd byddai Chwaraeon Cymru yn ystyried sut gellid cefnogi'r sector chwaraeon ehangach gyda'i ymdrechion i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang. Fel dosbarthwr cyllid y Loteri Genedlaethol, byddai Chwaraeon Cymru hefyd yn ceisio ategu gweithgareddau cyrff eraill fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Byddai diweddariad yn cael ei roi yn holl gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

Cyf. Papur: SW(20)12

8.2 Diweddariad Pwysau Iach Cymru Iach (HWHW)

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar 13 Ionawr ac mae Cynllun Cyflawni HWHW wedi cael ei gyhoeddi yn awr. Roedd y Cynllun Cyflawni yn cynnwys cyllid o'r Gyllideb Iechyd i Chwaraeon Cymru:

- £100K y flwyddyn am ddwy flynedd i CRhC brofi ffyrdd arloesol o annog pobl i fod yn fwy actif a byw bywydau iachach drwy gael mynediad at gyfleoedd chwaraeon cydweithredol.
- £500k y flwyddyn am ddwy flynedd i ddarpariaeth 60+ newydd. Byddai hon yn cael ei chyflwyno ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, CLILC ac awdurdodau lleol. Byddai Chwaraeon Cymru yn cyfrannu £300k pellach at y fenter hon.

Hefyd roedd nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni yn cyd-fynd â meysydd gwaith eraill gan Chwaraeon Cymru, gan gynnwys Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru, y Gronfa Iach ac Egniïol, y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol a Lle i Chwaraeon.

Cyf. Papur: SW(20)13

9. Grwpiau a Phwyllgorau Sefydlog

Nodwyd y cofnodion pwyllgor perthnasol. Ni chodwyd unrhyw faterion.

10. Unrhyw fater arall

Ni chodwyd unrhyw faterion.

11. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

13/14 Mai, 6/7 Gorffennaf, 15/16 Medi a 26/27 Tachwedd (Plas Menai).



Llofnod: Lawrence Conway CB, Cadeirydd
Dyddiad: 22 Ebrill 2020